


Trychu'r brig*

Beth ydi 'trychu'r brig'?

Mae'r dannedd yn cael eu dal yn eu lle yn yr ên gan eu gwreiddiau.

Yng nghraidd* pob dant mae swp meddal o feinwe* a elwir y bywyn* deintyddol. Mewn dant iach, mae'r bywyn yn cynnwys ffeibrau byw, celloedd, nerfau a chyflenwad gwaed*, sy'n ymestyn i'r gwreiddyn/ gwreiddiau trwy sianel(au) y gwreiddyn.

Gall pydredd* yn y dant, neu anaf, ddifa'r bywyn byw. Mae bywyn marw'n fwy tebygol o gael ei heintio*, sy'n arwain at grawniad* neu ddannoedd.



Gan amlaf, gellir trin hyn yn llwyddiannus gyda thriniaeth sianel y gwreiddyn (a elwir hefyd yn llenwad y gwreiddyn neu'n driniaeth endodontig). Weithiau, gall haint* barhau wrth fôn gwreiddyn dant, yn yr asgwrn o'i gwmpas. Yn yr achos hwn, bydd deintydd yn ei drin drwy drychu'r brig.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Bydd yn:

- rhoi anesthetig lleol i wneud y geg o amgylch y dant heintus* yn ddideimlad, er mwyn i'r driniaeth fod yn ddi-boen.
- gwneud toriad bychan yn y gorchfan*, ymhell oddi wrth y dant, fel na fydd craith i'w gweld yno wedyn.
- symud fflap bychan o'r gorchfan i un ochr, a chreu 'ffenestr' fechan yn yr asgwrn, er mwyn dadorchuddio'r man heintus.
- clirio'r haint a thorri ymaith ben neu frig y gwreiddyn.
- rhoi llenwad bychan ym mhen sianel y gwreiddyn rhag i haint godi eto.
- gwnïo'r gorchfan yn ôl i'w le.

Mae'n bosib y byddwch yn teimlo ychydig o bwyso gan y deintydd a chlywed sŵn offer yn cael ei ddefnyddio, ond ni ddylech deimlo poen o gwbl wrth gael trychu'r brig.

Ar ôl y driniaeth, bydd angen i chi gadw'r llecyn yn lân.

- Yn ystod y diwrnod cyntaf, golchwch eich ceg gyda dŵr â halen cynnes sawl gwaith, yn enwedig ar ôl prydau bwyd. Defnyddiwch hanner llond llwy de o halen mewn gwydraid o ddŵr cynnes – heb fod yn boethach nag sy'n gyfforddus i chi.
- Brwsiwch eich dannedd yn ôl eich arfer, ond byddwch yn ofalus rhag amharu ar y toriad.
- Y diwrnod wedyn, parhewch i olchi'ch ceg, a dechrau glanhau'r dannedd sydd nesaf at y toriad yn ofalus.

Mae'n bosib y bydd clais neu chwydd i'w weld a'i deimlo am ddau neu dri diwrnod wedi'r driniaeth. Bydd rhyw fymryn bach o anesmwythyd* hefyd – byddai rhoi pecyn rhew neu baced o bys wedi'u rhewi mewn lliain ar ochr yr wyneb yn helpu i leddfu'r boen. Fel arfer, mae'n cymryd oddeutu wythnos i chi ddod dros driniaeth ar drychu'r brig.

Pwyntiau i'w cofio:

- Mae trychu'r brig yn atal poen.
- Mae trychu'r brig yn arbed dant a fyddai, fel arall, yn gorfod cael ei dynnu.

GEIRFA: **anesmwythyd** = *discomfort*; **bywyn** = *pulp*; **craidd** = *core*; **cyflenwad gwaed** = *blood supply*; **gorchfan(nau)** – 'gym(s)' ar lafar = *gum(s)*; **haint** = *infection*; **heintio** = *to infect*; **heintus** = *infected*; **meinwe** = *tissue*; **pydredd** = *decay*; **trychu'r brig** = *apicectomy*